



# Restore the *Hart!* Adfer yr *Hydd!*



**White Hart Community Inn (St Dogmaels) Ltd.**

**Tafarn Cymunedol yr Hydd Gwyn (Llandudoch) Cyf.**

Community Benefit Society number: 8153

## Community Share Offer Cynnig Shar Cymunedol

# Cadwch ffydd â'r Hydd

## Ein Cynnig

Rydym yn cynnig y siawns i fod yn berchen ar gyfran mewn tafarn pentref traddodiadol ym mhentref hudolus Llandudoch, Sir Benfro - a'i ail agor er budd y gymuned.

## Mewn pot peint

- ◆ Mae angen codi £270,000 er mwyn prynu ac ail-agor Tafarn Yr Hydd Gwyn
- ◆ Mae cyfran yn costio £200 a bydd pob cyfranddaliwr yn cael un pleidlais yn unig
- ◆ Y buddsoddiad lleiaf yw £200 (1 cyfran), a'r mwyaf £20,000 (100 cyfran)
- ◆ Gall pob cyfranddaliwr cymwys hawlio 30% o dreth yn ôl ar ei gyfranddaliad
- ◆ Ein nôd yw talu llôg o 3% ar gyfranddaliadau os yw yr elw yn caniatáu

## Beth yw ein sefyllfa ar hyn o bryd?

Rydym wedi codi dros £200,000 yn y gymuned leol drwy addewidion i brynu cyfranddaliadau, rhoddion, digwyddiadau codi arian, a grantiau - gan gynnwys grant oddiwrth cyngor Sir Benfro.

Mae ymateb y gymuned arbennig hon i'r ymgyrch o godi arian yn golygu byddwn yn fuan iawn mewn sefyllfa i roi cynnig am y dafarn. Rydym nawr yn hyrwyddo'r cyfle i fuddsoddwyr sydd eisioes wedi colli y cynnig cyntaf i brynu cyfran er mwyn bod yn rhan o'r ymgyrch.



## Ein Gweledigaeth

Mae'r Hydd Gwyn erioed wedi bod yn le i bentrefwyr gwrdd ac yn le poblogaidd i gynnal digwyddiadau cymdeithasol. Mae'r croeso wastod yn wresog i gwsmeriaid hen a newydd. Bydd Yr Hydd yn dal i ddangos chwaraeon ar sgrîn fawr, cynnal nosweithiau cwis a digwyddiadau elusennol.

Bydd gan Yr Hydd Gwyn ddewis aruthrol o wîr gwrw o fragdai lleol a bydd y bwyd yn cynnwys cynhwysion lleol os yn bosib. Yr Hydd bydd y lleoliad naturiol i chwaraeon a gêmâu tafarn traddodiadol, digwyddiadau a dathliadau, miwsig a diwylliant.



## Ein Cynllun

Er mae y gymuned bydd yn prynu'r eiddo i'r deiliaid, bydd Pwyllgor Rheoli di-dâl yn cael ei ethol i arolyg'r busnes. Bydd y gwaith o redeg y dafarn o ddydd i ddydd yn nwylo rheolwr profiadol a deinamig sydd yn rhannu ein gweledigaeth o dafarn lwyddiannus fydd yn gweini'r pentref a'r ardal fel hwb cymunedol.

Rydym yn hyderus bydd yr aelodau yn helpu gyda threfnu a chefnogi digwyddiadau cymunedol yn y dafarn.





### ***Eich Tafarn***

Ystyriwch cael peint neu cwrdd â ffrindiau am bryd o fwyd yn eich tafarn chi! Gallwch hefyd fod yn gyd-berchennog o dafarn pentref traddodiadol ac yn siwr o groeso pob amser.

Nid yw'r model yma yn unigryw. Mae yn gweithio ac wedi bod yn llwyddiant mewn llefydd eraill. Mae yn siawns arbennig i fuddsoddi mewn anturiaeth leol werthfawr. Pam na ymunwch gyda dros 250 o gyfranddalwyr eraill er mwyn helpu gwneud Yr Hydd Gwyn yn llwyddiant?



### ***Eich help***

Bydd eich buddsoddiad yn helpu prynu'r dafarn ac yn datgloi cronfa o grantiau gallwn eu defnyddio i adfer Yr Hydd Gwyn er mwyn gwireddu ei lawn botensial. Ein nôd yw ail-sefydlu tafarn bydd yn gwasanaethu y gymuned leol ac ymwelwyr i'r ardal. Gyda'ch help gallwn godi arian i baratoi Yr Hydd Gwyn ar gyfer ei hail-agor. Pam na fyddwch yn wirfoddolyn er mwyn bod yn ran o'r fenter gyffrous yma?



### ***Eich Enillion***

Rydym yn rhagweld busnes proffidiol. Byddwch yn cael enillion ar eich buddsoddiad pryd bydd yr elw yn caniatáu. Yn ogystal â hyn, rydym yn hyderus cewch groeso twym galon pan fyddwch yn ymweld â'r Hydd Gwyn, tafarn cymunedol yn adlewyrchu ei gymuned.



### ***Prynwch Gyfran, dewch yn Aelod***

Cwblhewch y ffurflen gais ar gefn y Prospectws hwn er mwyn prynu cyfranddaliad a dod yn aelod gyda llais yn y ffordd mae'r dafarn yn cael ei redeg.

Os ydych am fod yn gyfranddaliwr ond bydd gwell gennych dalu yn fisol cysylltwch â ni er mwyn trefnu 'Standing Order'.

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn darllen ein Prospectws llawn ac yn ymweld â'n gwefan. Yno gallwch weld y Cynllun Busnes a deall ein rhesymeg a'n crêd mewn menter sy'n cynnig siawns buddsoddi teilwng.

Os na fydd digon o arian ar gael i fynd ymlaen â'r fenter byddwn yn ad-dalu eich buddsoddiad heb unrhyw golled i chi fel aelod.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni:

Ebost: [info@whci.cymru](mailto:info@whci.cymru)

Ffôn: Justin Walters 07760 273822 neu

Wefan: [www.whci.cymru](http://www.whci.cymru)

Wyn Owen 07384 311327



white hart community inn



[www.whci.cymru](http://www.whci.cymru)



@WhiteHartComInn



[info@whci.cymru](mailto:info@whci.cymru)

## Ffurflen Gais Swyddogol am Gyfranddaliad

Tafarn Cymunedol Yr Hydd Gwyn (Llandudoch)Cyf./ White Hart Community Inn (St Dogmaels) Ltd

Enw	Enw Cyntaf	
	Cyfenw	
Cwmni/Cyfundfren ac enw y person cyfrifol (os yn berthnasol)		
Enw Gwarcheidwad os dan 16 oed		
Cyfeiriad	Rhif neu Enw Tŷ	
Llinell Gyntaf		
Ail Llinell		
Pentref, Tref neu Ddinas		
Côd Post		
Ebst		
Ffôn	Adref	
	Busnes	

**Hoffwn brynu y cyfranddaliadau isod** (Rhwng 1 a 100 o gyfranddaliadau):

Nifer o gyfranddaliadau @ £200 yr un	Cyfanswm (Nifer x £200)	£
Ticiwch i gadarnhau eich bod (neu gwarcheidwad) dros 16 oed ac eich bod yn derbyn y termau a'r amodau buddsoddi yng nghyfranddaliadau y gymdeithas fel osodwyd yn Nogfennau Cais am Gyfran		

**SIEC: Gwnewch yn daliadwy i: "White Hart Community Inn"**

**ARLEIN: Gwnewch eich taliad i Banc Lloyds**

**Rhif Cownt: 49483068 Côt Sortio: 30-96-26**

**Os gwelwch yn dda cyfeiriwch eich taliad gyda: CyfenwEnwcyntaf ac ebostiwch info@whci.cymru er mwyn dweud wrthom am eich taliad.**

Arwydd	
Dyddiad	

**Danfonwch i /Gadewch eich ffurflen a'r sic mewn amlen yn:**

**Tafarn Cymunedol Yr Hydd Gwyn, c/o Y Swyddfa Bost, 1 Stryd Fawr, Llandudoch, Aberteifi, SA43 3ED**

Cewch wybodaeth ychwanegol a chopi bapur o'r Ffurflen Gais yn y Swyddfa Bost neu: [info@whci.cymru](mailto:info@whci.cymru)

*Wrth brynu y cyfranddaliadau rwyd cytuno bod yr holl wybodaeth rwyf wedi datgelu yn cael ei ddal ar fas data cyfrifiadurol yn ôl rheolau dal Data. Rwyd deall mai dim ond y Gymdeithas bydd yn defnyddio y data a ni fydd yn cael ei drosglwyddo i bartïon eraill.*